Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Ansawdd Aer (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Diwygio) 2021** |
| **DYDDIAD** | **24 Mawrth 2021** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**OS a osodwyd yn y Senedd, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Ansawdd Aer (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Diwygio) 2021**

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 166/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch sefydlu Cofrestr Rhyddhau a Throsglwyddo Llygredd Ewropeaidd

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O dan Reoliadau'r Amgylchedd a Bywyd Gwyllt (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019, trosglwyddir swyddogaethau Comisiwn yr UE i Weinidogion Cymru ar gyfer meysydd sydd o fewn cymhwysedd. Fel arall, mae Rheoliadau 2021 yn darparu i'r swyddogaethau hyn gael eu harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru, ond dim ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

**Diben y gwelliannau**

Diben Rheoliadau 2021 yw diwygio cyfraith uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd (UE) a gedwir mewn perthynas ag ansawdd aer er mwyn cywiro diffygion a sicrhau ei bod yn parhau i weithredu'n effeithiol.

Mae Rheoliadau 2021 a Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau ar gael yma:
https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2021/9780348220414

**Pam y rhoddwyd caniatâd**

Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru ac ar ei rhan am resymau effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y gwelliannau. Mae'r gwelliannau wedi'u hystyried yn llawn ac nid oes gwahaniaeth mewn polisïau. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd ym mis Mai.